

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# PRENTISIAETHAU.
# DEWIS DOETH.

**Recriwtia prentis anabl**

Prentisiaethau
Apprenticeships

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Gymdeithasol Ewrop**
**European Social Fund**

Mae prentisiaethau yn seiliedig ar anghenion cyflogwyr a gallant eich helpu i drawsnewid eich busnes, gan gynnig ffordd o ddod o hyd i ddoniau newydd. Ar hyn o bryd, dim ond 1.5% o brentisiaethau yng Nghymru sy'n cael eu gwneud gan bobl anabl. Mae hynny'n golygu nad yw cyflogwyr yn manteisio'n llwyr ar sylfaen werthfawr o sgiliau. Ond nid dyma'r unig reswm y dylid cyflogi prentis anabl. Dyma 10 rheswm arall...

1. **CYNYDDU CYNHYRCHIANT**
Gall gweithlu amrywiol ddod o hyd i atebion gwell i heriau busnes, gan eich helpu i hybu cynhyrchiant.

2. **FFYDDLONDEB AC YMRWYMIAD**
Mae gweithwyr anabl yn fwy tebygol o aros mewn swydd am gyfnod hirach ac o gael llai o ddiwrnodau i ffwrdd o'r gwaith oherwydd salwch.

3. **GWELLA GWASANAETHAU**
Mae'n bosibl y bydd gan weithlu cynhwysol sgiliau a gwybodaeth ychwanegol a fydd yn gallu eich helpu i ddarparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid anabl.

4. **MYNEDIAD I DDONIAU EHANGACH**
Gallai hyrwyddo eich polisïau ar gyfer pobl anabl fel rhan o'ch proses recriwtio eich helpu i ddenu mwy o ymgeiswyr o safon.

5. **HYBU MORÂL STAFF**
Gall staff sydd eisoes yn gweithio i'r busnes a darpar staff weld bod y sefydliad yn gofalu am ei weithlu.

6. **TIMAU GWAITH CRYFACH**
Bydd gweithwyr nad ydynt yn anabl yn ymwybodol o sut i wneud y gweithle yn fwy cynhwysol drwy weithio ochr yn ochr â chydweithwyr anabl.

7. **ATEBION ARLOESOL**
Mae gweithwyr anabl yn fwy tebygol o ddatrys problemau yn greadigol ac o gyflawni tasgau gwahanol drwy ddulliau newydd ac arloesol.

8. **LLEIHAU COSTAU HYFFORDDI A RECRIWTIO**
Mae cadw gweithwyr sydd wedi dod yn anabl yn ystod eu bywyd gwaith a'u helpu i wella eu sgiliau drwy brentisiaethau yn arbed costau recriwtio a hyfforddi.

9. **GWELLA DELWEDD O'R BRAND**
Mae creu gweithlu sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth eang o gwsmeriaid yn ogystal â'r gymuned yn creu darlun eich bod yn gyflogwr teg a chynhwysol.

10. **CYFRIFOLDEB CYMDEITHASOL CORFFORAETHOL**
Dyna sy'n gywir i'w wneud!

Am ragor o wybodaeth, ewch i: **businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/rhaglenni-sgiliau-hyfforddiant/prentisiaethau** neu ffoniwch **03000 6 03000**.